Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission Audit Committee**

**NAFWC ACAC**
**Cofnodion 14 Mehefin 2012**
**Amser:** 11:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4b, Tŷ Hywel,

**Cofnodion cyfarfod 14 Mehefin**

**Yn bresennol:**
Richard Calvert (Cynghorwr Annibynnol)
Tim Knighton (Cynghorwr Annibynnol)
Yr Athro Robert Pickard (Cynghorwr Annibynnol)
Angela Burns AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
Lynne Flux, Pennaeth Archwilio Mewnol
Rachael Tonkin, KPMG
Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru
Emma Moorhouse, Swyddfa Archwilio Cymru
John Grimes, Pennaeth Llywodraethu
Alison Rutherford, Ysgrifenyddiaeth

<u>Cyflwyniadau</u>

**Eitem 1 – Cyflwyniad a datgan buddiannau**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Steven O'Donoghue.

**Eitem 2 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill a materion sy'n codi**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol y tu allan i'r cyfarfod. Pwysleisiodd Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru un newid: dylai paragraff 21 ddatgan y byddai adborth llawn o'r gwaith ar dreuliau'r Aelodau yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.
3. Nododd y Cadeirydd na chafwyd unrhyw newidiadau i'r Cylch Gwaith a bod y Pwyllgor yn fodlon â'r Adroddiad Blynyddol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Comisiwn a gynhelir ar 12 Gorffennaf.

Archwilio Mewnol

**Eitem 3 – Y cynnydd diweddaraf**

ACAC(13) Papur 1a. Adolygu cynydd yr Arolygon Archwilio Mewnol yn erbyn y cynllun

4. Rhoddodd Lynne Flux drosolwg o gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ar gyfer 2011/2012. Nododd Lynne nad oedd y rhestr wirio ynghylch gwerthuso wedi cael ei chylchredeg gan ei bod yn dal i fod yn y broses o gael ei datblygu. Mae gwaith mapio'r Llywodraeth wedi dod i ben ac mae uwch reolwyr yn defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth ystyried newid sefydliadol yn y dyfodol.
5. Ychwanegodd Dianne Bevan fod rhaglen y Pedwerydd Cynulliad yn cael ei hystyried fel rhan o ddarn ehangach o waith i gynhyrchu dogfen gau gynhwysfawr a fyddai'n ddogfen etifeddiaeth i gynorthwyo paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad.
6. Yn dilyn sylwadau blaenorol y Pwyllgor Archwilio, dywedodd Claire Clancy wrth y Pwyllgor bod y sgôr risg Parhad Busnes wedi gostwng. Roedd yn fodlon bod pethau wedi symud ymlaen a bod y cynlluniau sydd ar waith yn ddigonol. Byddai'n well ganddi aros tan bod y gwaith cynllunio Parhad Busnes yn cael ei ddatblygu ymhellach cyn gwneud y gwaith archwilio.
7. Eglurodd Lynne fod Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn cael eu ddefnyddio i ddatblygu'r gwasanaeth archwilio mewnol, mor belled ag y maent yn berthnasol i'r Cynulliad fel sefydliad.

**Eitem 4 – Adroddiad Blynyddol ar Dwyll**

ACAC(13) Papur 1b. Adroddiad Blynyddol ar Dwyll

8. Cyflwynodd Lynne yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Dwyll a gwahoddodd y Pwyllgor Archwilio i gyflwyno sylwadau ar ei arddull a'i gynnwys. Ni nodwyd y dyddiad ar gyfer lansio'r canllawiau diwygiedig ar roddion a lletygarwch yn yr adroddiad. Y dyddiad hwnnw oedd mis Tachwedd 2011.
9. Awgrymodd y Cadeirydd bod swyddogion yn ystyried galw'r adroddiad yn adroddiad ar dwyll a chwythu'r chwiban i'w gwneud yn glir beth yw natur yr adroddiad. Pwysleisiodd yr Athro Pickard bwysigrwydd defnyddio geirfa priodol, fel "adrodd cydwybodol" i sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus am nodi eu pryderon.
10. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd sianelau effeithiol i alluogi unigolion allanol i godi pryderon, yn ogystal â chodi pryderon yn fewnol.
11. Nododd Mark Jones nad oedd yr achosion a nodwyd yn ymwneud â'r maes Cyllid felly nid oedd ganddo unrhyw bryderon y gallai hyn effeithio ar y cyfrifon.
12. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad, gan nodi iddo gael ei gyflwyno'n glir, yn cynnwys polisi a phrosesau yn ogystal ag achosion, ac argymhellodd y dylid ei gynnwys yn y cylch blynyddol o adroddiadau i'r Pwyllgor.

**Item 5 - Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran argymhellion yr Adroddiadau Archwilio Mewnol a'r camau sy'n deillio ohonynt**

ACAC(13) Papur 1c. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr Adolygiadau Archwilio Mewnol

13. Cyflwynodd Lynne yr adroddiad a phwysleisiodd ei bod yn falch o'r cynnydd a gafwyd mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu'r argymhellion.
14. Rhoddodd Rachael Tonkin o KPMG ragor o sylwadau ar y ddau argymhelliad sy'n weddill o archwiliadau Rheolaeth Ariannol Craidd. Nododd y bydd y rhain yn destun gwaith adolygu unwaith eto fel rhan o broses ddilynol 2012-13:
    - prosesau adolygu ffurfiol meistr-ddata y cyflenwr
    - gwirio cylchoedd talu CODA fesul sampl

15. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar yr adolygiad o ddulliau awdurdodi. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy'r trefniadau a strwythur dirprwyo newydd.

16. Trafodwyd defnyddio cardiau caffael. Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r rheolau o ran defnyddio cardiau, gan egluro y cynhaliwyd adolygiad o sut y cânt eu defnyddio'n ddiweddar. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai cyhoeddi datganiadau yn gwella tryloywder.

17. Dywedodd y Cadeirydd fod y dull hwn o gyflwyno adroddiad ar argymhellion a chamau i'w cymryd mewn ffordd mwy cynhwysfawr yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor a'i fod yn croesawu'r datblygiad hwn. Nododd y Pwyllgor Archwilio y cynnydd da a wnaed, yn enwedig mewn perthynas ag archebion prynu ôl-weithredol.

**Eitem 6 - Barn Archwilio Mewnol ac Adroddiad ar gyfer 2011-12.**

ACAC(13) Papur 1d. Barn Archwilio Mewnol ac Adroddiad ar gyfer 2011-12

18. Cyflwynodd Lynne yr adroddiad, a oedd yn adolygu canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12 ac yn gwneud gwaith dilynol ar adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Dywedodd y gallai roi barn cadarnhaol a sicrwydd digonol ar brosesau effeithiol o ran rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Roedd Lynne yn arbennig o falch ynghylch y cynnydd a welwyd yn dilyn yr archwiliad Diogelwch Gwybodaeth a oedd yn ei gwneud yn bosibl i roi barn gadarnhaol. Nododd ei hyder a sicrwydd cynyddol wrth i'r rhaglen waith gyda KPMG ddatblygu.

19. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau Lynne ar safbwynt y sefydliad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol. Roedd Lynne hapus am y cynnydd ar reoli contractau a chaffael, cryfhau'r gwasanaeth llywodraethu a gwasanaeth archwilio, ac am yr ymateb prydlon i argymhellion Archwilio Mewnol y sefydliad.

20. Ychwanegodd Claire, er bod yr adroddiad yn dangos tystiolaeth o sefyllfa gryfach ac ardaloedd lle mae llawer o waith wedi ei gwblhau, roedd angen cynnal momentwm a dywedodd fod meysydd lle roedd angen gwaith pellach. Rhoddodd enghreifftiau o'r dull o fynd i'r afael â'r datganiad llywodraethu, rheoli contractau a chaffael a diogelwch gwybodaeth.

21. Diolchodd y Pwyllgor Lynne am ei gwaith, gan gytuno bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fwy hyderus a bod ganddo ffocws mwy pendant. Nododd Angela Burns bod yr adroddiad blynyddol yn nodi bod y broses Archwilio Mewnol yn fwy gweledol a'i bod yn cael ei deall ar raddfa ehangach. Gofynnodd i Lynne a oedd hi'n fodlon â pha mor gyflym yr oedd sefydliadau yn ymateb i waith archwilio. Roedd Lynne yn teimlo bod asesu yn digwydd yn gynt a bod ymatebion yn symud ymlaen yn gynt. Ychwanegodd y Cadeirydd y dylid canolbwyntio ar ystyried a oedd timoedd yn ymateb yn ddigon cyflym a pha mor angenrheidiol ydyw gweithredu amserol. Croesawodd y Pwyllgor y barn blynyddol a nododd y cynydd a wnaed o ran Archwilio Mewnol a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

<u>Adroddiad blynyddol a chyfrifon</u>

**Eitem 7 – Cyfrifon blynyddol mewnol**

ACAC(13) Papur 3a (i). Papur blaen

ACAC(13) Papur 3a (ii). Cyfrifon blynyddol drafft

22. Cyflwynodd Nicola Callow y papur a dywedodd wrth y Pwyllgor bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru a bod yr archwiliad wedi cychwyn cyn gŵyl y banc.

23. Amlinellodd Nicola y pump newid yn y cyfrifon o'r flwyddyn flaenorol

- Y Datganiad Llywodraethu newydd;
- adlewyrchu'r cwmpasau yn y datganiad cyflenwi;
- ail-ddatgan i adlewyrchu sut i ymdrin ag asedau a roddwyd yn dilyn canllawiau gan Trysorlys Ei Mawrhydi;
- dim datgan pellach ar gyfer segmentau gweithredu IFRS; a
- argymell datgelu pellach mewn perthynas â threuliau gweinyddu.

24. Nododd Nicola bod newidadau i brosesau yn y tîm Cyllid wedi golygu bod gwaith yn cael ei gwblhau yn gynharach, gan arwain at gyfnod llai dwys yn arwain i fyny at yr archwiliad. Roedd dal i fod gwelliannau a nodwyd yn y cyfnod yn arwain at yr archwiliad y bydd y tîm yn canolbwyntio ar gyflawni yn 2012-13.

25. Yn dilyn cwestiynau gan y Pwyllgor, ymatebodd Nicola gan ddweud er bod y system gyllid bresennol yn cael ei ddefnyddio i'w photensial llawn yn paratoi'r cyfrifon, byddai gofynion technegol pellach yn cael eu cynnwys yn yr achos busnes ar gyfer y system gyllid newydd; hefyd, bod y meysydd risg ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod yn cynnwys pensiynau, ailbrisio asedau a'r newidiadau arfaethedig i'r safonau sy'n effeithio ar y driniaeth o brydlesau gweithredu yn y cyfrifon.

26. Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn cytuno i ddarparu datgeliad ychwanegol ar gyfer Treuliau Gweinyddol yn Nodyn 8.

**Eitem 8 – Adroddiad blynyddol drafft 2011/12**

ACAC(13) Papur 3b. Adroddiad Blynyddol drafft

27. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i weld yr adroddiad blynyddol i'w ystyried ochr yn ochr â'r cyfrifon. Nododd Claire y byddai'r adroddiad yn mynd i'r Comisiwn ar 28 Mehefin. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar yr adroddiad.

<u>Archwiliad Allanol</u>

**Eitem 9 – Ystyried barn Archwilio Allanol sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12**

ACAC (13) Eitem lafar.

28. Nododd Mark Jones safon uchel y cyfrifon a ddaeth i law yn gynt na'r disgwyl. Nid oedd unrhyw faterion i'w nodi nac i dynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt a dywedoddy byddai'n cyflwyno adroddiad llawn yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Ychwanegodd Mark bod y berthynas dda â swyddogion, y mae'r system gyfrifo wedi'i sefydlu'n gadarn gyda hwy, wedi helpu'r broses yn fawr iawn.

<u>Dull Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad</u>

**Eitem 10 – Rheoli Risg**

ACAC(13) Papur 4a. Adroddiad cryno ar risgiau corfforaethol a'r gofrestr risg

29. Cyflwynodd John Grimes y papur a gwahoddodd bobl i wneud sylwadau, gan nodi bod y system newydd ar waith ac mai'r canolbwynt yn awr oedd sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r broses ac yn ei defnyddio.

30. Holodd Angela Burns am y sgôr risg sy'n gysylltiedig â chysondeb busnes. Cytunodd John Grimes i edrych ar hyn ymellach a dywedodd y byddai'n anfon nodyn esboniadol ati.

31. Nododd y Cadeirydd bod llai o risgiau uchel.

<u>**Eitemau eraill**</u>

**Eitem 11 – Ymadawiadau**

ACAC(13) Papur 5a. Crynodeb o'r ymadawiadau

32. Nid oedd unrhyw ymadawiadau yn y cyfnod hwnnw. Nododd y Cadeirydd bod hyn yn dystiolaeth o gynnydd da yn y broses a diwylliant caffael.

**Eitem 12 – Y Flaenraglen Waith**

ACAC(13) Papur 5b. Y flaenraglen waith

33. Cytunwyd ar y flaenraglen waith a gofynnodd y Cadeirydd i bawb sicrhau eu bod yn nodi'r dyddiadau ar gyfer y cylch nesaf.

<u>**Unrhyw fater arall**</u>

34. Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Dianne Bevan. Mynychodd Dianne cyfarfodydd y Pwyllgor ers iddo gael ei sefydlu a nododd y Cadeirydd ei rôl allweddol yn y broses o ddatblygu trefniadau ariannnol a llywodraethu. Diolchodd y Pwyllgor iddi am ei chyfraniad.